# YMGYNGHORIAD STATUDOL

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint






- **Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026**
- **Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint**
- **Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol**
- **Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029**

**Cyfnod Ymgynghori: Yn dechrau ar 03 Mehefin 2025 ac yn Cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025**

# RHAN A. RHAGAIR

Ar ran Esgobaeth Gatholig Wrecsam

*" Cenhadaeth yr ysgol yw datblygu ymdeimlad o wirionedd, o'r hyn sy'n dda ac yn hyfryd. Gellir cyflawni hyn drwy ddilyn llwybr cyfoethog o elfennau amrywiol".*

*"Mae gwir addysg yn ein galluogi i garu bywyd a'n helpu i wneud y mwyaf o fywyd".*

Mae'r geiriau hyn gan y Pab Francis i athrawon ysgol yn yr Eidal ar 10 Mai 2024, ynghyd â nifer o ddogfennau a pholisïau addysgiadol eraill gan Esbonion Catholig Cymru a Lloegr, wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi wrth i mi archwilio patrymau cydweithio newydd rhwng ysgolion Esgobaeth Wrecsam. Fy mhrif bwrpas yw sicrhau hyfywedd ein hysgolion i'r dyfodol a darparu'r addysg orau posibl i blant yn ein gofal.

O fewn Esgobaeth Wrecsam, rhan o'n cenhadaeth yw adeiladu ar ein harferion da presennol er mwyn sicrhau rhagoriaeth a hyfywedd y ddarpariaeth addysg Gatholig i'r dyfodol. Mae ein cenhadaeth yn seiliedig ar werthoedd ysbrydol cryf ac ymchwil addysgol cadarn. Ein huchelgais yw:

- Creu system addysg Gatholig o'r radd flaenaf sy'n galluogi plant yr Esgobaeth i gyflawni eu potensial ysbrydol, addysgol a dynol.
- Gweithio'n agos â budd-ddeiliaid ar ail-strwythuro ein hysgolion i ddarparu system gynaliadwy sy'n addas i'r dyfodol.
- Darparu addysg Gatholig i bawb sy'n dymuno derbyn addysg mewn lleoliad ac ethos Catholig

Anelwn at gadw hyn mewn cof wrth adolygu ein darpariaeth ysgol.

Mae ein cenhadaeth yn cyd-fynd yn llwyr ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg. Mae tystiolaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn ategu at hyn. Rwy'n ymwybodol o'r angen am waith agosach ar y cyd rhwng ein hysgolion. Ein nod ar gyfer ysgol 3-18 newydd yw disodli Ysgol Sant Anthony, Saltney, Ysgol Sant David, yr Wyddgrug, Ysgol y Santes Fair, y Fflint ac Ysgol Sant Richard Gwyn, y Fflint a fydd yn caniatáu ar gyfer pontio di-dor o'r blynyddoedd cynnar i Lefel A. Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa fwy ffafriol i ddarparu'r cwricwlwm newydd a rhoi'r buddion o siwrnai addysg ddi-dor i'n plant.

Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr a fydd yn datblygu:


- campws dysgu lle bydd plant yn datblygu eu ffydd, eu sgiliau a'u gwybodaeth fel dinasyddion hyderus yn y 21ain ganrif sy'n falch o'u cymuned, eu hiaith a'u treftadaeth;
- gwelliant parhaus yn seiliedig ar arferion da cyfredol;

- campws gyda chyfleusterau rhagorol ar gyfer pob ystod oedran;
- canolfan ragoriaeth o ran addysgu a dysgu Catholig sy’n gweithio mewn partneriaeth agos â phob un o’i hysgolion eglwysig bwydo
- canolfan addoli a chymdeithasu ar gyfer plwyfi ysgolion a’r gymuned;
- carbon sero net drwy’r ysgol;
- rhannu arweinyddiaeth a rhagoriaeth mewn llywodraethu

Bydd y broses ymgynghori hon yn rhoi cyfle i bawb sy’n gysylltiedig â’n cymuned o ysgolion Catholig yn Sir y Fflint ofyn cwestiynau am y cynnig cyffrous hwn.  Mae’n bwysig bod y weledigaeth o ran yr hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer ein cymuned yn cael ei rhannu a’i deall gan bawb.

Rwy’n hyderus y bydd yr ysgol Gatholig 3-18 arfaethedig yn amgylchedd cryf a meithringar. Rwy’n gwybod y bydd yr ysgol yn adeiladu ar yr ethos, llwyddiannau a’r cyflawniadau sydd eisoes yn cael eu cydnabod yn y pedair ysgol y bydd yn eu disodli.

Nid yw eich plant yn haeddu dim llai.



Y Gwir Barchedig Peter Brignall

Esgob Wrecsam

Ar ran Cyngor Sir y Fflint

*Wrth i gwricwlwm yr ysgol esblygu ac wrth i dechnoleg a ffactorau allanol megis newidiadau amgylcheddol ac economaidd ddatblygu, mae'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint barhau i adolygu ei ystadau ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn.*

*Effaith blynyddoedd o galedi ariannol yn y sector cyhoeddus a chostau cynyddol yn her sylweddol i ysgolion i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol. Mae cyllidebau ysgolion, sy'n seiliedig ar niferoedd disgyblion, yn gostwng yn unol â chyfraddau geni. Sy'n golygu bod llai o blant yn cyrraedd y system addysg. Nid yw'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint yn unigryw o ran hyn, ac mae gostyngiadau yn nifer y disgyblion a llai o blant yn mynychu ysgolion yn golygu bod nifer uwch o lefydd gwag a bod arian yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth weithgareddau craidd y cwricwlwm sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion..*

*Gyda chyllidebau'r Cyngor hefyd yn cael eu hymestyn i'r eithaf, mae ceisio cynnal cyflwr yr ysgolion yn her arall sy'n dod yn gynyddol anodd. Er gwaethaf y buddsoddiad sylweddol gan yr Esgobaeth a'r Cyngor, gallai ac fe ddylai cyflwr adeiladau'r ysgolion fod yn well ar gyfer disgyblion a staff.*

*Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod amgylcheddau dysgu yn cael eu cynnal i safon uchel, gan alluogi i ddisgyblion deimlo'n ddiogel ac yn gyffyrddus, yn ogystal â rhoi'r cyfleusterau i staff ddarparu addysg ragorol, fel y gwelir yn nifer o'n hysgolion..*

*Dyna pam, pan gysylltodd y Cyngor ag Esgobaeth Gatholig Wrecsam mewn perthynas â'r cynnig hwn, nid oeddem yn gallu anwybyddu'r cyfle i adolygu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.*

*Drwy'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, mae gan y Cyngor hanes blaenorol o ddarparu ysgolion modern o ansawdd uchel sy'n darparu amgylchedd meithringar lle gall disgyblion a staff ffynnu. Gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ynghyd â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, buddsoddwyd £140 miliwn er mwyn adeiladu ac ailwampio ysgolion dros y 10 mlynedd nesaf. Gellir defnyddio'r ffynhonnell ariannu hon hefyd i drawsnewid yr ystâd addysg Gatholig yn Sir y Fflint fel bod tegwch i'r holl ddysgwyr.*

*Mae'r cynnig a gyflwynir gan yr Esgobaeth yn un hyderus a heriol, ond bydd y syniad o ysgol gydol oes di-gabron net newydd yn sicrhau darpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint am flynyddoedd i ddod. Dyna pam fod y Cyngor wedi cytuno i weithio gyda'r Esgobaeth fel partner strategol i ddarparu'r prosiect trawsnewidiol hwn.*

*Bydd effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghlwm ag unrhyw gynnig a weithredir. Mae'n hollbwysig felly ymgynghori fel cam cyntaf er mwyn pennu p'un ai'r cynnig hwn yw'r peth iawn i'w wneud.*

*Mae eich barn chi'n bwysig.*

*Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn croesawu eich ymatebion a gaiff eu cymryd i ystyriaeth wrth i ni benderfynu p'un a ddylid bwrw ymlaen i'r cam nesaf.*



Claire Homard

Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

**RHAN A. RHAGAIR** ..... **2**
**RHAN B. TROSOLWG** ..... **8**
B.1. Cyflwyniad ..... 8
B.2. Trosolwg o'r Cynnig ..... 9
B.3. Gofynion Ymgynghori ..... 9
B.4. Cyn yr Ymgynghoriad ..... 10
B.5. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori? ..... 10
B.6. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad ..... 11
B.7. Manylion Cyswllt ..... 13
B.8. Beth fydd yn digwydd nesaf? ..... 13
**RHAN C. Y DDADL O BLAID NEWID** ..... **15**
C.1. Cefndir y Cynnig ..... 15
C.2. Y Sefyllfa Bresennol ..... 16
C.3. Lleoliadau'r Ysgol ..... 20
C.4. Gwybodaeth Ddemograffig ..... 20
C.5. Rhagolygon Disgyblion ..... 25
C.6. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg ..... 29
**RHAN D. Y CYNNIG** ..... **32**
D.1. Beth sy'n cael ei gynnig? ..... 32
D.2. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu? ..... 32
D.3. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith? ..... 32
D.4. Cost y Cynnig ..... 33
D.5. Dewisiadau a Ystyriwyd ..... 34
D.6. Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni? ..... 38
**RHAN E. RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG** ..... **39**
E.1. Effaith ar Meysydd Darparu Addysg Estyn ..... 39
E.2. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol ..... 40
E.3. Effaith ar Dderbyniadau ..... 40

E.4. Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ........ 40
E.5. Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd ........ 41
E.6. Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ........ 41
E.7. Effaith ar Drefniadau Llywodraethu ........ 41
E.8. Effaith ar Staffio ........ 41
E.9. Effaith ar Ysgolion Eraill ........ 42
E.10. Risgiau sydd ynghlwm â'r Cynnig ........ 45
E.11. Asesiad o Effaith Integredig ........ 46
E.12. Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg ........ 47
E.13. Effaith ar yr Adeiladau ........ 47
E.14. Trefniadau yn y Cyfamser ........ 47

Mae copïau caled o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael ac os bydd arnoch angen copi ar bapur neu ar ffurf fformat gwahanol fel Braille neu brint bras, neu os oes arnoch angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704014, 01352 704018, 01352 702188 neu e-bostiwch CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk.

# RHAN B. TROSOLWG

## B.1. Cyflwyniad

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid ac eraill â diddordeb ddysgu am y newidiadau arfaethedig a gwneud sylwadau ynglŷn â’r cynnig i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae’r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldebau Esgobaeth Gatholig (*yr Esgobaeth*) Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint (*y Cyngor*) i ymgynghori â budd-ddeiliaid priodol wrth ystyried unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgolion. Mae’r cyfrifoldebau hyn yn rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Gan ddilyn canllawiau rheoleiddiol Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae’r Cyngor yn dymuno ymgynghori â budd-ddeiliaid mewn perthynas ag ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Mae’r cynnig yn cynnwys cau Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint. Mae’r cynnig hefyd yn cynnwys agor Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18 Cyfrwng Saesneg newydd yn y Fflint.

Mae’r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid ofyn cwestiynau, gwneud sylwadau a rhannu eu safbwyntiau ar y cynigion a gyflwynir. Adolygir ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn fanwl wrth i’r Cyngor benderfynu a ddylid gweithredu’r hyn a gynigir.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys y wybodaeth y dylai budd-ddeiliaid ei hystyried i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn llawn.

***Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw’r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.***

## B.2. Trosolwg o'r Cynnig

Mae'r Esgobaeth a'r Cyngor yn ceisio eich barn ar gynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol.
- Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

I gyflawni'r newidiadau hyn, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi £55 miliwn mewn ysgol newydd. Yn unol ag amodau cyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 85% o gyfanswm cost y prosiect a'r Cyngor yn ariannu'r 15% sy'n weddill drwy fenthyca cyfalaf.

*Nodwch os gwelwch yn dda: cyflwynir y cynnig hwn yr un pryd â'r cynnig i uno Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Wood, Saltney.*

## B.3. Gofynion Ymgynghori

Mae'r ddogfen hon yn fodd i'r Esgobaeth a y Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol wrth ystyried unrhyw ad-drefnu arwyddocaol mewn ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn disgrifio nifer o addasiadau mewn ysgolion a gynhelir sy'n destun rheoleiddio, a rhaid peidio â'u cyflawni heb fod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu'r corff llywodraethu wedi cyflawni gofynion y Cod.

Mae angen dilyn gweithdrefnau statudol fel arfer er mwyn gwneud newidiadau sylweddol mewn ysgolion. Lluniwyd y gweithdrefnau fel bod modd gwneud newidiadau os bernir eu bod yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy'n diogelu buddiannau dysgwyr ac sy'n galluogi pobl â diddordeb i gael cyfle i leisio'u barn ar y broses. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gweithdrefnau hyn yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ("*y Cod*").

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o'r rheiny yn ddiwrnodau ysgol. Bydd cyfleoedd i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio.

Yn unol â'r safonau a gytunwyd ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dyfynnu Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, "*Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn*.".

Mae barn plant a phobl ifanc yn arbennig o bwysig i'r Esgobaeth a'r Cyngor ac felly bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor wedi llunio fersiwn gryno o'r ddogfen hon a fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

## B.4. Cyn yr Ymgynghoriad

Cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, yn unol â'r Cod, cynhaliodd yr Esgobaeth ymgynghoriad ffurfiol â'i ymddiriedolwyr a oedd yn cefnogi'r opsiwn a ffefrir. Ni chyflwynwyd unrhyw opsiynau newydd. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Ionawr 2025.

## B.5. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar **03 Mehefin 2025 ac yn cau am Hanner Nos ar 18 Gorffennaf 2025.** Bydd hyn yn gadael 45 diwrnod i dderbyn ymatebion, ac mae 33 o'r rhain yn ddyddiau ysgol.

Mae'r canlynol wedi cael gwybod drwy lythyr neu drwy e-bost fod y ddogfen hon ar gael a'u bod, pe dymunent, yn gallu derbyn copi caled.

- rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff yr ysgolion hynny y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;
- yr awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynnig yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yng nghyd-destun darpariaeth benodol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), unrhyw awdurdod sy'n lleoli disgyblion gydag AAA yn y Ganolfan neu'n debygol o wneud;
- yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer ardal unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni

- unrhyw gorff crefyddol arall sy'n briodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni
- corff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddi
- corff llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Etholedig ac Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- Estyn;
- undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae'n bosibl yr effeithid arnynt gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer AAA unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol; sydd â buddiant;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan yr Esgobaeth ac fe'i gwelir drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.rcdwxmeducation.org/flintshire-reorganisation

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan y Cyngor ac fe'i gwelir drwy ddilyn y ddolen isod:

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

## B.6. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae eich barn ar y cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint yn bwysig i ni. Mae ar yr Esgobaeth a'r Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os yw'n mynd i effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Esgobaeth a'r Cyngor bellach yn cynnal prosesau ymgynghori statudol â'r holl fudd-ddeiliaid i sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wneir ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol:

| Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Statudol | Diwedd y Cyfnod Ymgynghori Statudol | Cyfnod Ymgynghori |
|---|---|---|
| 03 Mehefin 2025 | 18 Gorffennaf 2025 | 45 diwrnod, ac mae 33 o'r rheiny'n ddiwrnodau ysgol |

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan neu trwy ddilyn y ddolen hon:

https://www.smartsurvey.co.uk/s/catholiceducationconsultation/

Mae copi o'r holiadur ar ddu a gwyn yng nghefn y ddogfen hon.  Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt dros y dudalen.

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen ar ffurf print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwch yn cael ymateb yn yr un iaith.  Ni fydd y defnydd o'r naill iaith yn arwain at oedi.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, lluniwyd fersiwn o'r ddogfen sy'n addas i'w hoedran a lefel debygol eu dealltwriaeth. Mae'n cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd gyfeillgar sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i benderfyniad gwybodus. Mae'r ddogfen i'w chael yma:

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn **hanner nos ar 18 Gorffennaf 2025.**

Ni chynhelir digwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellir anfon cwestiynau trwy e-bost at **CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk**. Bydd Swyddogion y Cyngor yn darparu ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith ar faterion y broses.

Trefnwyd digwyddiadau ar gyfer staff a llywodraethwyr yn yr ysgolion dan sylw.

## B.7. Manylion Cyswllt

Dylid anfon bob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

- Tîm Moderneiddio Ysgolion
  Cyngor Sir y Fflint
  Tŷ Dewi Sant
  Parc Dewi Sant
  Ewloe
  Sir y Fflint, CH5 3FF
- E-bost: CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk
- Rhif ffôn: 01352 704014, 01352 704018, 01352 702188

Bydd blwch post hefyd ar gael yn nerbynfeydd Sant Anthony, Sant David, y Santes Fair, Sant Richard Gwyn, Sant Gwenfrewi a Hybarch Edward Morgan i bostio ymatebion.

## B.8. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, llunnir Adroddiad Ymgynghori i grynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r dewis a ffefrir yn y ddogfen ymgynghori. **Dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.**

Os bydd Cabinet y Cyngor yn rhoi sêl bendith ar y rhan gyntaf o'r broses, cyhoeddir **Hysbysiad Statudol** a bydd gan bobl 28 o ddiwrnodau i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol yn ysgrifenedig. I gyfrif fel gwrthwynebiad statudol, **rhaid** iddynt fod wedi'u gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Wedi i gyfnod yr Hysbysiad Statudol ddod i ben, byddai angen i Gabinet y Cyngor ystyried adroddiad arall o'r enw'r **Adroddiad Gwrthwynebiadau**, a fyddai'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt. Ar sail hynny, bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor a gellir gwneud cais am gopi caled.

Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig neu beidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Ar ôl y penderfyniad, anfonir copi electronig o’r **Hysbysiad o Benderfyniad** at yr holl fudd-ddeiliaid a nodir yn y rhestr ohebu cyn pen saith o ddiwrnodau wedi’r penderfyniad.

Dyma’r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu wedi’r drefn ymgynghori ffurfiol:

| Camau o’r Broses | Dyddiadau Allweddol |
|---|---|
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau’r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â’r cynigion | Medi / Hydref 2025 |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol a chychwyn cyfnod gwrthwynebu | Hydref / Tachwedd 2025 |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu a phenderfynu a ddylid gweithredu’r cynigion neu beidio | Ionawr / Chwefror 2026 |
| Cyhoeddi llythyr i hysbysu o benderfyniad y Cabinet | Ionawr / Chwefror / Mawrth 2026 |

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori’n amlinellu’r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Dymunwn ichi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen hon a lleisio’ch barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.

# RHAN C. Y DDADL O BLAID NEWID

## C.1. Cefndir y Cynnig

Mae’r cynnig hwn i foderneiddio ysgolion yn hanfodol gan fod yn rhaid i’r awdurdod lleol:

- Sicrhau darpariaeth addysg raenus a chynaliadwy.
- Gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion.
- Darparu'r nifer iawn o leoedd mewn ysgolion, o’r math iawn, yn y mannau iawn
- Mynd i’r afael ag adeiladau ysgol ac isadeiledd anghynaladwy.
- Cydnabod y bydd peidio â gweithredu’n creu cymarebau uwch rhwng athrawon a disgyblion wrth i gyllid leihau.
- Manteisio i’r eithaf ar gyllid allanol drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o’r broses ymgynghori, mae’r Esgobaeth a’r Cyngor yn ceisio eich barn ar gynnig i ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Cynigir darparu’r ad-drefniant drwy:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol.
- Symud yr ysgol newydd i’r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

## C.2. Y Sefyllfa Bresennol

### C.2.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG | |
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Ysgol** | | Cynorthwyir yn Wirfoddol | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Enwad ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn-Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2020** | 99 | 8 |
| | **Medi 2021** | 76 | 5 |
| | **Medi 2022** | 77 | 2 |
| | **Medi 2023** | 69 | 4 |
| | **Medi 2024** | 68 | 6 |
| **Lleoedd ar gael** | **Medi 2024** | 152 | 19 |
| **Lleoedd Gwag** | **Medi 2024** | 84 | 13 |
| **Rhagolygon Disgyblion** | **Medi 2025** | 59 | 6 |
| | **Medi 2026** | 55 | 6 |
| | **Medi 2027** | 52 | 6 |
| | **Medi 2028** | 46 | 6 |
| | **Medi 2029** | 42 | 6 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad. | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Gradd Addasrwydd C – Gwael<br>Dulliau addysgu wedi eu gwahardd/niweidiol | | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £16,300<br>Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW. | | |

**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony’n rhoi sgôr E ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae’r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 25,322 o gilowat-oriau o drydan a 59,087 o gilowat-oriau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 19,554kgCO2e. Byddai adeilad newydd sy’n cyflawni’r safon Gweithredu’n Ddi-garbon Net yn dileu’r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

### C.2.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | St David's Lane, Yr Wyddgrug CH7 1LH | |
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Ysgol** | | Cynorthwyir yn Wirfoddol | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Enwad ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn-Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2020** | 80 | 11 |
| | **Medi 2021** | 74 | 10 |
| | **Medi 2022** | 77 | 5 |
| | **Medi 2023** | 68 | 7 |
| | **Medi 2024** | 71 | 8 |
| **Lleoedd ar gael** | **Medi 2024** | 144 | 14 |
| **Lleoedd Gwag** | **Medi 2024** | 73 | 6 |
| **Rhagolygon Disgyblion** | **Medi 2025** | 68 | 7 |
| | **Medi 2026** | 63 | 8 |
| | **Medi 2027** | 59 | 8 |
| | **Medi 2028** | 54 | 8 |
| | **Medi 2029** | 51 | 8 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad. | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Gradd Addasrwydd C – Gwael<br>Dulliau addysgu wedi eu gwahardd/niweidiol | | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £90,112<br>Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW.<br>*Sylwer: Wedi lleihau o £150,000 a nodwyd yn adroddiad y Cabinet oherwydd bod Adroddiad Cyflwr newydd ar gael ym mis Chwefror 2025* | | |

**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Gatholig Sant David yn rhoi sgôr C ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae'r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 22,765 o gilowat-oriau o drydan a 118,312 o gilowat-oriau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 31,474kgCO2e. Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

### C.2.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Ffordd Llewelyn y Fflint CH6 5JZ | |
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Ysgol** | | Cynorthwyir yn Wirfoddol | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Enwad ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn-Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2020** | 211 | 27 |
| | **Medi 2021** | 208 | 26 |
| | **Medi 2022** | 218 | 25 |
| | **Medi 2023** | 224 | 28 |
| | **Medi 2024** | 232 | 29 |
| **Lleoedd ar gael** | **Medi 2024** | 317 | 29 |
| **Lleoedd Gwag** | **Medi 2024** | 85 | 0 |
| **Rhagolygon Disgyblion** | **Medi 2025** | 232 | 32 |
| | **Medi 2026** | 232 | 32 |
| | **Medi 2027** | 231 | 31 |
| | **Medi 2028** | 221 | 32 |
| | **Medi 2029** | 222 | 32 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Cyflwr C - Gwael<br>Arddangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd. | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd | | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £253,200<br>Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW. | | |

**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn rhoi sgôr D ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae'r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 51,980 o gilowat-oriau o drydan a 206,712 o gilowat-oriau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 58,345kgCO2e. Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.


### C.2.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Albert Avenue, y Fflint, CH6 5JZ |
| **Oedrannau** | | 11-18 |
| **Categori Ysgol** | | Cynorthwyir yn Wirfoddol |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg |
| **Enwad ffydd** | | Catholig |
| | | Blynyddoedd 7-13 |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2020** | 784 |
| | **Medi 2021** | 808 |
| | **Medi 2022** | 805 |
| | **Medi 2023** | 772 |
| | **Medi 2024** | 794 |
| **Lleoedd ar gael** | **Medi 2024** | 969 |
| **Lleoedd Gwag** | **Medi 2024** | 175 |
| **Rhagolygon Disgyblion** | **Medi 2025** | 796 |
| | **Medi 2026** | 762 |
| | **Medi 2027** | 774 |
| | **Medi 2028** | 741 |
| | **Medi 2029** | 711 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Cyflwr C - Gwael<br>Arddangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd. | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Addasrwydd C – Gwael<br>Dulliau addysgu wedi eu gwahardd/niweidiol | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £430,000<br>Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW. | |

**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn rhoi sgôr D ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae’r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 245,094 o gilowat-oriau o drydan a 808,630 o gilowat-oriau o nwy. Roedd hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 239,717kgCO2e. Byddai adeilad newydd sy’n cyflawni’r safon Gweithredu’n Ddi-garbon Net yn dileu’r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

## C.3. Lleoliadau'r Ysgol




Mae Saltney yn dref ac yn rhan o ward etholiadol Saltney Ferry, Sir y Fflint i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer.  Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 5,140 o bobl yn preswylio yn ward Saltney Ferry.

Mae'r Wyddgrug yn Sir y Fflint mewn lleoliad canolog o fewn y sir ac yn cynnwys pedair ward etholiadol. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 10,148 o bobl yn preswylio yn y pedair ward yn yr Wyddgrug.


Mae'r Fflint yn dref arfordirol sydd wedi'i lleoli yng ngogledd y sir ac yn cynnwys tair ward etholiadol.  Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd bod 13,736 o bobl yn preswylio yn y tair ward yn y Fflint.

## C.4. Gwybodaeth Ddemograffig


### C.4.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

Mae'r dadansoddiad demograffeg (ym mis Medi 2024) wedi dangos fod 98.39% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Sant Anthony'n mynychu eu hysgol gynradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol cyfrwng Saesneg agosaf.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony.



### C.4.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug





Mae dadansoddiad demograffeg (Medi 2024) wedi dangos fod 79.71% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Sant David yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol cyfrwng Saesneg agosaf.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant David.


### C.4.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint

Mae dadansoddiad demograffeg (Medi 2024) wedi dangos fod 91.98% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Santes Fair yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol cyfrwng Saesneg agosaf.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol y Santes Fair.



### C.4.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint




Mae dadansoddiad demograffeg (Medi 2024) wedi dangos fod 100.00% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Richard Gwyn yn mynychu eu hysgol uwchradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol cyfrwng Saesneg agosaf.

Map o Leoliadau Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Richard Gwyn.

### C.4.v. Gwerthusiad o'r Ardal

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint yn 2023 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015 a 2030. Mae'r Cynllun yn pennu'r modd y bydd trefi a phentrefi Sir y Fflint yn tyfu ac yn newid, gan gynnwys nodi ble ddylai datblygiadau ddigwydd neu beidio.

Gall y CDLl gael effaith ar niferoedd disgyblion a dylanwadu ar ddyletswydd y Cyngor i ddarparu'r nifer priodol o lefydd ysgol yn y lleoliadau cywir, gan leihau costau cynnal a sicrhau cynaliadwyedd.

Mae pedair ysgol yn ward Saltney Ferry:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry.
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony.
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol Sant Anthony, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (6.11 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (10.32 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol Sant Anthony yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward Saltney Ferry yn uniongyrchol.

Nid oes unrhyw safleoedd i'w datblygu yn ardal Saltney wedi'u pennu yn y CDLl presennol. Heb ddisgyblion ychwanegol yn symud i'r ardal, mae'r nifer uchel o lefydd dros ben yn Ysgol Sant Anthony (84 / 55.26%) yn dangos nad oes digon o alw am yr ysgol. Felly, byddai cau Ysgol Sant Anthony'n datrys y broblem o lefydd dros ben yn yr ardal.

Yn ward Dwyrain yr Wyddgrug, mae dwy ysgol:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David.
- Ysgol Bryn Coch.

Mae pedair ysgol o fewn y tair ward arall yn yr Wyddgrug:

- Ysgol Bryn Gwalia.
- Ysgol Glanrafon.
- Ysgol Uwchradd Alun.
- Ysgol Maes Garmon.

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol Sant David, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (5.56 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (5.90 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol Sant David yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward Dwyrain yr Wyddgrug ac ardal ehangach yr Wyddgrug yn uniongyrchol.

Mae safleoedd yn ardal yr Wyddgrug a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLl ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto. Gallai'r safleoedd hyn ddenu mwy o ddisgyblion i'r ardal ar ôl eu cwblhau, fodd bynnag, o ystyried nifer yr ysgolion yn yr ardal, a'r defnydd o ffafriaeth rhieni o ran derbyniadau ysgol, ni ellir pennu p'un a fyddai disgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol.

Gyda nifer fechan o ddisgyblion ychwanegol yn symud i'r ardal, neu ddim o gwbl, mae'r nifer uchel o lefydd dros ben yn Ysgol Sant David (73 / 50.69%) yn dangos nad oes digon o alw am yr ysgol. Felly, byddai cau Ysgol Sant David yn datrys y broblem o lefydd dros ben yn yr ardal.

Mae pum ysgol yn ward y Fflint Coleshill a'r Fflint Trelawny:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Cornist.

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair.
- Ysgol Gwynedd.
- Ysgol Uwchradd y Fflint.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn.

Mae un ysgol o fewn y ddwy ward arall yn y Fflint:

- Ysgol Gymraeg Croes Atti.

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol y Santes Fair, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (4.94 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (0.15 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol y Santes Fair yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward y Fflint Coleshill a'r Fflint Trelawny ac ardal ehangach y Fflint yn uniongyrchol.

Ysgol Sant Richard Gwyn yw'r unig ysgol uwchradd Gatholig yn Sir y Fflint ac felly mae'n gwasanaethu'r sir gyfan.


Mae safleoedd yn ardal y Fflint a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLl ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto.  Gallai'r safleoedd hyn ddenu mwy o ddisgyblion i'r ardal ar ôl eu cwblhau, fodd bynnag, o ystyried nifer yr ysgolion yn yr ardal, a'r defnydd o ffafriaeth rhieni o ran derbyniadau ysgol, ni ellir pennu p'un a fyddai disgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol.

Gyda nifer fechan o ddisgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol o ddatblygiadau tai, neu ddim o gwbl, bydd nifer uchel o lefydd dros ben yn Ysgol y Santes Fair (85 / 26.81%) yn parhau i fod yn uchel ond yn llawer is o'i gymharu ag ysgol Sant Anthony a Sant David.

# C.5. Rhagolygon Disgyblion

## C.5.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 10 | 8 | 5 | 2 | 4 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 0 |
| Derbyn | 16 | 12 | 9 | 6 | 4 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 0 |
| Blwyddyn 1 | 19 | 15 | 10 | 10 | 7 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 0 |
| Blwyddyn 2 | 12 | 17 | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | -4 |
| Blwyddyn 3 | 17 | 12 | 15 | 11 | 9 | 12 | 10 | 6 | 6 | 6 | 6 | -6 |
| Blwyddyn 4 | 15 | 16 | 11 | 14 | 13 | 9 | 12 | 10 | 6 | 6 | 6 | -3 |
| Blwyddyn 5 | 16 | 12 | 14 | 11 | 14 | 10 | 9 | 12 | 10 | 6 | 6 | -4 |
| Blwyddyn 6 | 11 | 15 | 8 | 16 | 13 | 15 | 10 | 9 | 12 | 10 | 6 | -9 |
| **Cyfanswm** | **106** | **99** | **76** | **77** | **69** | **68** | **59** | **55** | **52** | **46** | **42** | **-26** |
| Uchafswm Disgyblion | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 46 | 53 | 76 | 75 | 83 | 84 | 93 | 97 | 100 | 106 | 110 | 26 |
| % Lleoedd Gwag | 30.26% | 34.87% | 50.00% | 49.34% | 54.61% | 55.26% | 61.18% | 63.82% | 65.79% | 69.74% | 72.37% | 17.11% |
| Niferoedd Derbyn | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |





### Medi 2025

Mae Derbyniadau Ysgol Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi bod 5 lle dosbarth derbyn wedi'u dyrannu ar gyfer mis Medi 2025 ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, sy'n is na'r ffigwr a ragwelwyd o 6. Mae 3 lle wedi'u dyrannu ar gyfer blwyddyn meithrin, sy'n is na'r ffigwr a ragwelwyd o 6. Gyda'i gilydd mae'r ystadegau hyn yn adlewyrchu nifer gostyngedig yn St Anthony a lleoedd gwag sylweddol o'i chymharu â'r capasiti..

## C.5.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 14 | 11 | 10 | 5 | 7 | 8 | 7 | 8 | 8 | 8 | 8 | 0 |
| Derbyn | 9 | 12 | 11 | 11 | 4 | 8 | 8 | 7 | 8 | 8 | 8 | 0 |
| Blwyddyn 1 | 11 | 7 | 11 | 12 | 10 | 4 | 8 | 8 | 7 | 8 | 8 | 4 |
| Blwyddyn 2 | 8 | 12 | 7 | 12 | 13 | 11 | 4 | 8 | 8 | 7 | 8 | -3 |
| Blwyddyn 3 | 12 | 8 | 13 | 10 | 13 | 13 | 11 | 4 | 8 | 8 | 7 | -6 |
| Blwyddyn 4 | 12 | 13 | 7 | 12 | 10 | 12 | 13 | 11 | 4 | 8 | 8 | -4 |
| Blwyddyn 5 | 15 | 14 | 11 | 9 | 10 | 12 | 12 | 13 | 11 | 4 | 8 | -4 |
| Blwyddyn 6 | 15 | 14 | 14 | 11 | 8 | 11 | 12 | 12 | 13 | 11 | 4 | -7 |
| **Cyfanswm** | **82** | **80** | **74** | **77** | **68** | **71** | **68** | **63** | **59** | **54** | **51** | **-20** |
| Uchafswm Disgyblion | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 62 | 64 | 70 | 67 | 76 | 73 | 76 | 81 | 85 | 90 | 93 | 20 |
| % Lleoedd Gwag | 43.06% | 44.44% | 48.61% | 46.53% | 52.78% | 50.69% | 52.78% | 56.25% | 59.03% | 62.50% | 64.58% | 13.89% |
| Niferoedd Derbyn | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |





### Medi 2025

Mae Derbyniadau Ysgol Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi bod 8 lle dosbarth derbyn wedi'u dyrannu ar gyfer mis Medi 2025 ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, sy'n unol â'r ffigwr a ragwelwyd. Mae 11 lle wedi'u dyrannu ar gyfer blwyddyn meithrin, sy'n is na'r ffigwr a ragwelwyd o 7.  Gyda'i gilydd mae'r ystadegau hyn yn adlewyrchu nifer gostyngedig yn St David a lleoedd gwag sylweddol o'i chymharu â'r capasiti.

## C.5.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 21 | 27 | 26 | 25 | 28 | 29 | 32 | 32 | 31 | 32 | 32 | 3 |
| Derbyn | 18 | 23 | 29 | 29 | 28 | 33 | 29 | 32 | 32 | 31 | 32 | -1 |
| Blwyddyn 1 | 28 | 19 | 26 | 36 | 30 | 33 | 33 | 29 | 32 | 32 | 31 | -2 |
| Blwyddyn 2 | 31 | 28 | 23 | 29 | 40 | 31 | 33 | 33 | 29 | 32 | 32 | 1 |
| Blwyddyn 3 | 31 | 30 | 28 | 27 | 32 | 41 | 31 | 33 | 33 | 29 | 32 | -9 |
| Blwyddyn 4 | 35 | 30 | 32 | 26 | 30 | 33 | 41 | 31 | 33 | 33 | 29 | -4 |
| Blwyddyn 5 | 47 | 35 | 33 | 36 | 28 | 32 | 33 | 41 | 31 | 33 | 33 | 1 |
| Blwyddyn 6 | 36 | 46 | 37 | 35 | 36 | 29 | 32 | 33 | 41 | 31 | 33 | 4 |
| **Cyfanswm** | **226** | **211** | **208** | **218** | **224** | **232** | **232** | **232** | **231** | **221** | **222** | **-10** |
| Uchafswm Disgyblion | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 91 | 106 | 109 | 99 | 93 | 85 | 85 | 85 | 86 | 96 | 95 | 10 |
| % Lleoedd Gwag | 28.71% | 33.44% | 34.38% | 31.23% | 29.34% | 26.81% | 26.81% | 26.81% | 27.13% | 30.28% | 29.97% | 3.15% |
| Niferoedd Derbyn | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |





## Medi 2025

Mae Derbyniadau Ysgol Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi bod 29 lle dosbarth derbyn wedi'u dyrannu ar gyfer mis Medi 2025 ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, sy'n unol â'r ffigwr a ragwelwyd. Mae 20 lle wedi'u dyrannu ar gyfer blwyddyn meithrin, sy'n is na'r ffigwr a ragwelwyd o 32. Mae nifer y lleoedd gwag ar gyfer mis Medi 2025 yn destun pryder.

## C.5.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | 5 Year Trend |
| Blwyddyn 7 | 168 | 121 | 151 | 123 | 129 | 136 | 131 | 128 | 144 | 111 | 103 | -33 |
| Blwyddyn 8 | 145 | 167 | 124 | 149 | 128 | 134 | 136 | 131 | 128 | 144 | 111 | -23 |
| Blwyddyn 9 | 103 | 149 | 167 | 131 | 155 | 127 | 134 | 136 | 131 | 128 | 144 | 17 |
| Blwyddyn 10 | 142 | 106 | 149 | 160 | 136 | 165 | 127 | 134 | 136 | 131 | 128 | -37 |
| Blwyddyn 11 | 123 | 143 | 102 | 152 | 161 | 137 | 165 | 127 | 134 | 136 | 131 | -6 |
| Blwyddyn 12 | 50 | 51 | 70 | 31 | 40 | 59 | 50 | 60 | 47 | 49 | 50 | -9 |
| Blwyddyn 13 | 45 | 47 | 45 | 59 | 23 | 36 | 53 | 45 | 54 | 42 | 44 | 8 |
| **Cyfanswm** | **776** | **784** | **808** | **805** | **772** | **794** | **796** | **762** | **774** | **741** | **711** | **-83** |
| Uchafswm Disgyblion | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 193 | 185 | 161 | 164 | 197 | 175 | 173 | 207 | 195 | 228 | 258 | 83 |
| % Lleoedd Gwag | 19.92% | 19.09% | 16.62% | 16.92% | 20.33% | 18.06% | 17.82% | 21.40% | 20.13% | 23.53% | 26.62% | 8.56% |
| Niferoedd Derbyn | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 0 |
| | Disgyblion Blwyddyn 7 yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | | | | | | 0 |
| | Disgyblion Blwyddyn 7 yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | | | | | | 0 |




## Medi 2025

Mae Gwasanaeth Derbyniadau Ysgolion Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi y neilltuwyd 103 o leoedd yn nosbarth blwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2025, sy'n is na'r ffigwr a ragwelwyd o 131. Gyda'i gilydd mae'r ystadegau hyn yn adlewyrchu nifer gostyngedig yn St Richard Gwyn a lleoedd gwag sylweddol o'i chymharu â'r capasiti.

## C.6. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Mae Estyn a'r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint. Estyn yw swyddfa Prif Arolygwr Ei Fawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron a ffurfiwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar y Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Gweler isod y sylwadau o adroddiad arolwg diweddaraf Estyn mewn perthynas â darpariaeth cwricwlwm y pedair ysgol. Ceir dolen i'r adroddiad (Saesneg yn unig) a chrynodeb o unrhyw argymhellion ar gyfer pob ysgol hefyd.

### C.6.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

Ionawr 2019

*"Mae perthynas waith effeithiol rhwng oedolion a disgyblion, sy'n cefnogi amgylchedd dysgu ystyrlon. Mae athrawon yn paratoi gwersi effeithiol ac mae gweithgareddau'n llifo'n dda. Maent yn egluro syniadau newydd yn ofalus ac yn ymestyn addysg disgyblion drwy brofiadau ymarferol. Maent yn gofyn cwestiynau ysgogol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau meddwl drwy gydol y wers. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ansawdd addysg disgyblion.".*

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Inspection%20report%20St%20Anthony%27s%20R.C.%20Primary%20School%202019_0.pdf

Argymhellion

- Gwella safonau mewn Cymraeg fel ail iaith ar draws yr ysgol.
- Cynyddu presenoldeb cyffredinol.
- Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb am eu haddysg er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol.
- Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws meysydd dysgu gwahanol.

### C.6.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, yr Wyddgrug

Mawrth 2020

*"Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y mwyafrif o ddisgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt wrth iddynt weithio a rhyngweithio â disgyblion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae athrawon yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â phynciau ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon mewn modd medrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at addysg disgyblion".*

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/St%2520David%2527s%2520Catholic%2520Primary%2520School_1_0.pdf

Argymhellion

- Herio pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i wella ac arwain eu haddysg er mwyn cyflawni eu potensial llawn.
- Mireinio gweithdrefnau monitro er mwyn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau disgyblion.
- Sicrhau fod bob proses sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu arbennig yn gadarn ac yn rhoi trosolwg clir o gynnydd disgyblion.
- Gwella ansawdd sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

### C.6.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint

Chwefror 2018

*"Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda ar y cyfan. Mae pob aelod o staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae nifer ohonynt yn ymateb mewn modd sensitif i anghenion a diddordebau unigolion. Mae'r mwyafrif o staff yn llwyddo i reoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae nifer o gynorthwywyr addysgu'n gwybod pryd i ymyrryd ac yn darparu cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, yn arbennig y disgyblion hynny sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol."*

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/St%2520Mary%2527s%2520R.C.%2520Primary%2520School_4.pdf

Argymhellion

- Cynllunio i blant gael rhagor o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau TGCh.
- Gwella'r cysylltiadau rhwng cynlluniau datblygu'r ysgol a hunanwerthuso.
- Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gynllunio ar gyfer gwario grantiau arbennig.
- Cynllunio cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol disgyblion.
- Gwella prosesau i fonitro presenoldeb.
- Mynd i'r afael â'r mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolwg.

### C.6.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

Ebrill 2024

*"Mae'r mwyafrif o athrawon yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon â disgyblion i gefnogi eu haddysg. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynnal amgylcheddau dysgu gofalgar. Mae nifer o'r athrawon wedi sefydlu patrymau ar gyfer dechrau gwersi. Maent yn egluro'r bwriadau dysgu'n glir ac yn defnyddio dulliau cwestiynu rheolaidd i sicrhau fod disgyblion yn deall. Mae'r athrawon hyn yn fodelau ieithyddol da ac yn sicrhau fod disgyblion yn gwybod beth i'w wneud. Mae ganddynt wybodaeth dda am eu pynciau ac yn canmol yn synhwyrol i annog dysgu. Mae rhai o'r athrawon yn arbennig o frwdfrydig ac yn rhannu eu hangerdd am eu pwnc. Maent yn darparu esboniadau clir o gysyniadau, modelu disgwyliadau dysgu ac yn darparu adborth defnyddiol ar lafar ar sut i wella."*

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2024/07/Inspection-report-St-Richard-Gwyn-Roman-Catholic-High-School-2024.pdf

Argymhellion

- Gwella ansawdd dysgu a gwella ymgysylltiad a chynnydd disgyblion mewn perthynas â dysgu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad.
- Sicrhau fod prosesau hunanwerthuso a gwella'n canolbwyntio'n fwy penodol ar wella addysg a'i effaith ar gynnydd disgyblion.
- Datblygu dull strategol i gynllunio, gwerthuso a gwella datblygiad cynyddol sgiliau disgyblion ar gyfer pob disgybl.
- Sicrhau fod gan bob disgybl fynediad llawn at ddarpariaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

# RHAN D. Y CYNNIG

## D.1. Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan yr Esgobaeth yn rhoi cyfle i'r Cyngor adolygu'r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney, a fydd yn gorffen gweithredu erbyn 31 Awst 2026.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2026 ac ysgol unedig newydd, Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18, Cyfrwng Saesneg, gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ym Medi 2026, yn gweithredu ar y tri o safleoedd presennol.
- Symud yr ysgol newydd i'r adeiladau newydd o 1 Medi 2029.

## D.2. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?

Bydd rhaglen o waith adeiladu cyfalaf yn hwyluso'r cynnig, wedi'i hariannu drwy Raglen Ddatblygu Gyfalaf y Cyngor.

Bydd y prosiect yn:

- Adeiladu ysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg 3-18 newydd yn y Fflint, ar safleoedd presennol Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Richard Gwyn.
- Capasiti cyffredinol yr ysgol fydd 1185 o ddisgyblion.
- Bydd y nifer hwn yn cynnwys 315 o ddisgyblion cynradd llawn amser a 750 o ddisgyblion uwchradd llawn amser. Darperir 120 o lefydd chweched dosbarth ar gyfer disgyblion rhan amser.
- Darperir 45 o lefydd blwyddyn meithrin ar gyfer disgyblion rhan amser.

## D.3. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith?

Rhagwelir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud mewn perthynas â ph'un a ddylid parhau â'r cynnig neu beidio ddechrau 2026, pe baem yn cyrraedd y pwynt hwn. Os gweithredir y cynnig, bydd cyfnod dylunio a datblygu'n dechrau ar unwaith ar ôl y penderfyniad terfynol.

Yn ystod y broses hon, cynigir cau Ysgol Sant Anthony erbyn 31 Awst 2026.

Bydd ysgol gyfunedig newydd yn agor ar 1 Medi 2026.

Byddai gwaith adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau yn gynnar yn 2027 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Awst 2029.

## D.4. Cost y Cynnig

Rhagwelir y bydd y prosiect yn ymofyn buddsoddiad cyfalaf o £55,000,000. Mae modd sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect drwy fenthyciad cyfalaf y Cyngor a chyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Nod rhaglen ariannu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yw:

- gwella ansawdd adeiladau ysgolion.
- sicrhau fod lleoedd ar gael i ddisgyblion i ateb y galw'n lleol.
- lleihau lleoedd gwag.
- lleihau costau gweithredu.
- hyrwyddo cynaladwyedd.

Yn unol ag amodau cyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 85% o gyfanswm cost y prosiect a'r Cyngor yn ariannu'r 15% sy'n weddill drwy fenthyca cyfalaf.

Un o sbardunau'r cynnig yw cydraddoldeb cyllid i ddisgyblion a thrwy gau pedair ysgol ac agor ysgol 3-18 newydd, caiff y gost fesul disgybl ar gyfer darpariaeth addysg Gatholig ei rhesymoli.

Drwy fformiwla ariannu'r Cyngor, ariennir ysgolion yn ôl nifer y disgyblion a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu. Ariannir yr ysgol newydd drwy ddefnyddio'r fformiwla hwn, gydag un gyllideb a fydd yn llai na'r gyllideb ar gyfer gweithredu pedair ysgol ar wahân.

Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl yn Sir y Fflint yn 2025 / 2026 yw £5,667. Mae'r gyllideb a'r costau fesul disgybl ar gyfer yr ysgolion unigol yn yr un cyfnod fel a ganlyn:

- Dyrannwyd £433,628 refeniw i Ysgol Sant Anthony gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o £6,107.
- Dyrannwyd £450,633 refeniw i Ysgol Sant David gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o £6,008.
- Dyrannwyd £1,141,631 refeniw i Ysgol y Santes Fair gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o £4,468.

Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl uwchradd yn Sir y Fflint yn 2025 / 2026 yw £6,041

- Dyrannwyd £4,495,115 refeniw i Ysgol Richard Gwyn yn yr un cyfnod gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o £5,661.

Cyfrifwyd costau refeniw'r ysgol newydd arfaethedig ar sail Fformiwla Cyllido Ysgolion 2025/26.

**<u>Yn seiliedig ar niferoedd disgyblion presennol</u>**

- Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Cynradd ar y Gofrestr 301* a 45 yn y Feithrinfa
- Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Cynradd: £ £1,149,912
- Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Cynradd: £ £4,796
- Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Uwchradd ar y Gofrestr 794
- Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Uwchradd: £3,258,803
- Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Uwchradd: £5,661

**<u>Ar sail nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd arfaethedig</u>**

- Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Cynradd ar y Gofrestr 315 a 45 yn y Feithrinfa
- Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Cynradd: £1,195,964
- Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Cynradd: £4,744
- Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Uwchradd ar y Gofrestr 870
- Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Uwchradd: £3,443,644
- Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Uwchradd: £5,406

## D.5. Dewisiadau a Ystyriwyd

Ystyriwyd cyfanswm o 6 dewis cyn nodi dewis a ffefrir. Mae manteision ac anfanteision pob dewis wedi ffurfio sail ar gyfer pob canlyniad a'r broses o nodi dewis a ffefrir.

| **Dewis 1 - Cadw'r sefyllfa bresennol;** | |
|---|---|
| Cadw pob ysgol Gatholig ar agor heb unrhyw ymyrraeth. | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Dim angen buddsoddiad<br>• Bydd pob ysgol yn aros yn eu cymunedau presennol<br>• Dim amhariad ar ddisgyblion | • Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw<br>• Nid yw'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben<br>• Nid yw'n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy<br>• Nid oes unrhyw awydd i wneud dim.<br>• Nid yw'n cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon CSFf |
| **Canlyniad - Diystyru'r dewis hwn** | |

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis 2 - Gwneud cyn Lleied â Phosibl</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mynd i’r afael â’r ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw ym mhob ysgol.</td></tr>
<tr><th>Manteision</th><th>Anfanteision</th></tr>
<tr><td><ul><li>Angen ychydig o fuddsoddiad</li><li>Mynd i’r afael â’r ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw</li><li>Bydd pob ysgol yn aros yn eu cymunedau presennol</li><li>Dim amhariad ar ddisgyblion</li></ul></td><td><ul><li>Nid yw’n mynd i’r afael â’r nifer uchel o lefydd dros ben</li><li>Nid yw’n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy</li><li>Nid yw’n cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon CSFf</li></ul></td></tr>
<tr><th colspan="2">Canlyniad - Diystyru’r dewis hwn</th></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis 3 - Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (2 ysgol)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Uno Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Richard Gwyn<br>Buddsoddi’n sylweddol yn safle’r Fflint (naill ai adeilad cwbl newydd neu waith ail-fodelu/ailwampio sylweddol)<br>Cadw Ysgol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan</td></tr>
<tr><th>Manteision</th><th>Anfanteision</th></tr>
<tr><td><ul><li>Profiad addysgu drwy’r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy’n hwyluso’r broses bontio.</li><li>Arweinyddiaeth a llywodraethu a rannir</li><li>Datblygiad drwy’r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rannir</li><li>Bydd pedair ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol</li><li>Ychydig o amhariad ar ddisgyblion</li></ul></td><td><ul><li>Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol</li><li>Nid yw’n mynd i’r afael â’r problemau cynnal a chadw yn y pedair ysgol gynradd arall</li><li>Nid yw’n mynd i’r afael â’r nifer uchel o lefydd dros ben yn sylweddol</li><li>Nid yw’n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy</li><li>Nid yw’n cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon CSFf</li></ul></td></tr>
<tr><th colspan="2">Canlyniad - Diystyru’r dewis hwn</th></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis 4 - Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (4 ysgol)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cau Ysgol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Richard Gwyn<br>Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint<br>Cadw Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan ar agor</td></tr>
<tr><th>Manteision</th><th>Anfanteision</th></tr>
<tr><td>• Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes<br>• Adeilad(au) di-garbon net<br>• Lleihau problemau cynnal a chadw a chostau’n sylweddol ar draws y sector Catholig<br>• Profiad addysgu drwy’r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy’n hwyluso’r broses bontio.<br>• Datblygiad drwy’r ysgol a chwricwlwm gydag arbenigedd a rannir<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rannir<br>• Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff<br>• Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag<br>• Datrysiad hirdymor cynaliadwy<br>• Bydd dwy ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol</td><td>• Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol<br>• Nid yw’n mynd i’r afael â’r problemau cynnal a chadw yn y ddwy ysgol gynradd arall<br>• Gwaredu dwy ysgol o’u cymunedau lleol<br>• Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Sant David i’w hysgol gynradd Gatholig agosaf<br>• Cynnydd posibl mewn costau cludiant<br>• Mae posibilrwydd o golli disgyblion sydd eisoes yn mynychu, neu a fyddai wedi mynychu, Ysgol Sant Anthony ac ysgol Sant David i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig<br>• Mae posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney a’r Wyddgrug<br>• Colli lleoliadau ysgol hanesyddol</td></tr>
<tr><th colspan="2">Canlyniad - Dewis a Ffefrir</th></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis 5 - Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (6 ysgol)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cau Ysol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol y Santes Fair, Ysgol Sant Gwenfrewi, Ysgol yr Hybarch Edward Morgan ac Ysgol Richard Gwyn<br>Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint</td></tr>
<tr><th>Manteision</th><th>Anfanteision</th></tr>
<tr><td>• Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes<br>• Adeilad(au) di-garbon net<br>• Un ddarpariaeth Gatholig ganolog<br>• Gwaredu problemau cynnal a chadw a chostau'n sylweddol ar draws y sector Catholig<br>• Profiad addysgu drwy'r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy'n hwyluso'r broses bontio.<br>• Datblygiad drwy'r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rannir<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rannir<br>• Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff<br>• Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag<br>• Datrysiad hirdymor cynaliadwy</td><td>• Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol<br>• Gwaredu pedair ysgol o'u cymunedau lleol<br>• Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan i'w hysgol gynradd Gatholig agosaf<br>• Cynnydd posibl mewn costau cludiant<br>• Mae posibilrwydd o golli disgyblion sydd eisoes yn mynychu, neu a fyddai wedi mynychu, Ysgol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig<br>• Mae posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney, yr Wyddgrug, Treffynnon a Shotton<br>• Colli lleoliadau ysgol hanesyddol</td></tr>
<tr><th colspan="2">Canlyniad - Diystyru'r dewis hwn</th></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Dewis 6 - Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (4 ysgol) a Ffederasiwn (2 ysgol)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cau Ysgol Sant Anthony, Ysgol Sant David, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Richard Gwyn<br>Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint<br>Ffederaleiddio Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan</td></tr>
<tr><th>Manteision</th><th>Anfanteision</th></tr>
<tr><td>• Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes<br>• Adeilad(au) di-garbon net<br>• Lleihau problemau cynnal a chadw a chostau’n sylweddol ar draws y sector Catholig<br>• Profiad addysgu drwy’r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy’n hwyluso’r broses bontio.<br>• Datblygiad drwy’r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rannir<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rannir<br>• Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff<br>• Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag<br>• Datrysiad hirdymor cynaliadwy<br>• Bydd dwy ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol<br>• Bydd dwy ysgol gynradd yn cadw eu hunaniaethau unigol<br>• Mae Ffederasiwn yn darparu gweledigaeth, adnoddau, polisïau a threfniadau llywodraethu a rannir ar draws dwy ysgol</td><td>• Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol<br>• Nid yw’n mynd i’r afael â’r problemau cynnal a chadw yn y ddwy ysgol gynradd arall<br>• Gwaredu dwy ysgol o’u cymunedau lleol<br>• Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Sant David i’w hysgol gynradd Gatholig agosaf<br>• Cynnydd posibl mewn costau cludiant<br>• Mae posibilrwydd o golli disgyblion sydd eisoes yn mynychu, neu a fyddai wedi mynychu, Ysgol Sant Anthony ac ysgol Sant David i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig<br>• Mae posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney a’r Wyddgrug<br>• Mae oddeutu 10 milltir rhwng y safleoedd sydd wedi’u ffederaleiddio a allai leihau unrhyw effeithiau cadarnhaol posibl<br>• Colli lleoliadau ysgol hanesyddol</td></tr>
<tr><th colspan="2">Canlyniad - Diystyru’r dewis hwn</th></tr>
</table>

## D.6. Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni?

Byddai bwrw ymlaen â’r dewis hwn yn lleihau’r nifer helaeth o leoedd gwag yn ysgolion cynradd darpariaeth addysg Gatholig yr ardal yn sylweddol, yn cwtogi ar gostau gweithredu a darparu amgylchedd dysgu cyfoes sy’n addas at y diben ac yn cynnig gwell cyfleoedd i’r holl blant ddysgu.

# RHAN E. RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

Amlinellir isod yr effeithiau allweddol a ragwelir pe bai'r Cynnig yn cael ei weithredu.

## E.1. Effaith ar Meysydd Darparu Addysg Estyn

### E.1.i. Safonau

Bydd y cyfleusterau ysgol o'r radd flaenaf newydd yn galluogi staff i gynnig darpariaeth addysg well, a fyddai yn ei dro'n gwella cyfleoedd dysgu i'r disgyblion.

### E.1.ii. Lles ac agweddau at ddysgu

Bydd adeiladu ysgol newydd sbon yn hybu lles y staff a'r myfyrwyr drwy ddarparu mynediad at adnoddau a chyfleusterau a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg a meithrin agweddau mwy cadarnhaol at ddysgu.

Bydd budd-ddeiliaid yn cyfrannu at ddyluniad yr adeilad newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y cwricwlwm a'i hethos cyffredinol, a thrwy hynny bydd yr ysgol yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosib ar les myfyrwyr a'u cyfranogiad wrth ddysgu.

### E.1.iii. Profiadau addysgu a dysgu

Bydd yr ysgol newydd yn rhoi gwell mynediad i ddisgyblion a staff at adnoddau a chyfleusterau a bydd hynny'n gwella'r profiadau addysgu a dysgu cyffredinol. Yn ogystal â hynny, bydd yr ysgol yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol ac amrywiaeth helaethach o weithgareddau cwricwlaidd.

### E.1.iv. Gofal, cefnogaeth ac arweiniad

Bydd yr amgylcheddau dysgu cynhwysol a meithringar yn yr ysgolion presennol yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, ynghyd â'r staff addysgu. Bydd y cyfleusterau gwell yn yr ysgol newydd yn darparu mwy o adnoddau ac amwynderau i fedru cefnogi'r dysgwyr yn well.

### E.1.v. Arwain a Rheoli

Atgyfnerthir arweinyddiaeth yr ysgol newydd drwy rannu arferion gorau rhwng arweinwyr presennol yr ysgolion a chyfuno'r profiad sydd ganddynt. Yn ogystal â hynny, datblygir strwythurau i gynnig amrywiaeth fwy helaeth o gyfleoedd i staff a myfyrwyr. O ganlyniad i hynny, bydd myfyrwyr yn elwa ar well cyfleoedd i ddysgu ac amrywiaeth fwy helaeth o weithgareddau cwricwlaidd.

## E.2. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol

Yn ystod y cyfnod datblygu cynlluniau, bydd effaith adeiladu'r ysgol newydd ar draffig yn cael ei hasesu a bydd unrhyw oblygiadau negyddol a ragwelir yn cael eu gwaredu neu eu gostwng i sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl.

Bydd llwybrau diogel i ysgolion a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio a Gwasanaethau Stryd. Rhoddir strategaeth gydlynol ar waith ar gyfer teithio a chynllun teithio a fydd yn annog pobl i deithio i'r ysgol mewn ffyrdd ecogyfeillgar.

Byddai gwaredu pedwar adeilad ac adeiladu un newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu allyriadau o ôl-troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

## E.3. Effaith ar Dderbyniadau

Caiff y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol newydd eu pennu a'u gweinyddu gan y corff llywodraethu newydd. Defnyddir y dull hwn gan gyrff llywodraethu'r pedair ysgol presennol, ac ni fydd yn newid ar ôl ei weithredu.

Bydd digon o lefydd ar gael i ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Sant David i drosglwyddo i ysgol Gatholig arall, ble bynnag maent yn preswylio.

## E.4. Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu a oes angen iddo ddarparu cludiant i ddisgyblion oed ysgol statudol i hwyluso presenoldeb yn ysgol ddynodedig y disgybl dan sylw. Os yw'r cludiant yn cael ei bennu'n angenrheidiol, yna mae'n rhaid darparu cludiant am ddim.

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:

- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf.
- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf.

Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter.

Gellir gweld y Polisi Cludiant llawn drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

Daeth Asesiad o Effaith ar Gludiant i'r casgliad y byddai cau Ysgol Sant Anthony a (safle) Sant David yn:

- Cynyddu'r pellter cerdded cyfartalog yn sylweddol i ddisgyblion yn yr ysgolion hyn i'w hysgol gynradd Gatholig amgen.
- Cynyddu'r amser teithio cyfartalog yn sylweddol i ddisgyblion yn yr ysgolion hyn i fynd i'w hysgol gynradd Gatholig amgen.
- Cynyddu'r costau i'r Cyngor ddarparu cludiant i bob disgybl yn yr ysgolion hyn i gyrraedd eu hysgol gynradd Gatholig amgen (ni ellir pennu costau gwirioneddol).

Gellir dod o hyd i'r Asesiad o Effaith Lawn ar Gludiant yma:

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

## E.5. Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol ar gyfer trosglwyddo i addysg uwchradd. Fe ddylai'r trefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion cynradd yn y Fflint wella drwy fod yn rhan o'r ysgol 3-18.

## E.6. Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd y disgyblion hynny ag ADY yn colli mynediad at y ddarpariaeth a gynigir yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug. Fodd bynnag, bydd y ddarpariaeth ADY yn yr ysgol newydd yn cael ei hystyried yn y broses ddylunio ac yn debygol o fod yn well na'r cynnig presennol yn y Fflint gyda chyfleusterau ac adnoddau ychwanegol newydd o'r radd flaenaf ar gael.

## E.7. Effaith ar Drefniadau Llywodraethu

Yn ystod y cam dylunio, bydd cynrychiolwyr o gyrff llywodraethu'r ysgolion yn y Fflint yn ffurfio corff llywodraethu / gweithgor 'cysgodol' i gyfrannu at gyfleusterau'r ysgol newydd. Unwaith y bydd yr ysgol newydd bron yn barod, bydd corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu.

## E.8. Effaith ar Staffio

Mae gofynion staffio mewn ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn yr ysgol. Felly, os bydd pob disgybl yn aros o fewn darpariaeth addysg Gatholig Sir y Fflint, ni fydd niferoedd staffio'n newid yn sylweddol.

Fodd bynnag, bydd y cynnig yn cael effaith ar leoliad swyddi. Bydd cyfleoedd i weithio yn Saltney a'r Wyddgrug yn cael eu colli ond mae'n bosibl y bydd cyfleoedd newydd ar gael yn y Fflint, Shotton a Threffynon, yn ddibynnol ar ble fydd y disgyblion yn symud.

Bydd aelodau staff yn cael eu cefnogi drwy unrhyw newidiadau gan dimau Gwasanaethau Cyflogaeth y Cyngor.

Mae'n bosibl y bydd y Cynnig hefyd yn cynyddu a gwella safon cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff gan y bydd rhagor o swyddi arwain ar gael i hwyluso cynnydd gyrfaol.

## E.9. Effaith ar Ysgolion Eraill

Mae'r Cod yn nodi y dylid ystyried yr effaith ar ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Nid oes meini prawf yn y Cod i bennu sut mae "ysgol yn debygol o gael ei heffeithio" gan gynnig. Felly, mae'r Cyngor fel arfer yn cymharu ysgolion tebyg o ran math ac iaith sy'n gymharol agos i'r brif ysgol/ysgolion.

Gan mai dim ond dwy ysgol Gatholig arall sydd yn Sir y Fflint, ystyriwyd p'un a yw unrhyw un ohonynt yn "debygol o gael eu heffeithio". Nid yw Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Gwenfrewi, Treffynnon yn debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol gan y Cynnig yn sgil lleoliad cartrefi'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Sant Anthony a Sant David.

Fodd bynnag, ar gyfer y mwyafrif o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony ar hyn o bryd, pe bai'r ysgol yn cau, eu hysgol gynradd Gatholig agosaf fyddai Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan yn Shotton. Felly, mae'n rhesymol pennu bod Ysgol Gynradd Yr Hybarch Edward Morgan yn debygol o gael ei heffeithio gan y Cynnig.

Pe bai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Yr Hybarch Edward Morgan, byddai'r niferoedd ar gofrestr yr ysgol yn cynyddu o 167 (Medi 2024) i 229. Mae gan yr ysgol le i 281 o ddisgyblion llawn amser, a byddai'r llefydd gwag yn gostwng o 114 i 52. Mae'r effaith bosibl hon yn rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n agos ac, os oes angen, bydd adolygiad o'r llety yn yr ysgol yn cael ei gynnal i nodi ffyrdd i leihau effaith unrhyw ddisgyblion ychwanegol a dderbynnir.

Mae'r wybodaeth lawn am Ysgol Yr Hybarch Edward Morgan isod.

### E.9.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.


#### E.9.i.a. Y Sefyllfa Bresennol

<table>
<tr><td colspan="2">Lleoliad yr Ysgol</td><td colspan="2">Caernarfon Close, Shotton CH5 1AR</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedrannau</td><td colspan="2">3-11</td></tr>
<tr><td colspan="2">Categori Ysgol</td><td colspan="2">Cynorthwyir yn Wirfoddol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Categori Iaith</td><td colspan="2">Cyfrwng Saesneg</td></tr>
<tr><td colspan="2">Enwad ffydd</td><td colspan="2">Catholig</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td><td>Derbyn – Blwyddyn 6</td><td>Meithrin</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol</td><td>Medi 2020</td><td>201</td><td>18</td></tr>
<tr><td>Medi 2021</td><td>196</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Medi 2022</td><td>184</td><td>17</td></tr>
<tr><td>Medi 2023</td><td>165</td><td>23</td></tr>
<tr><td>Medi 2024</td><td>167</td><td>19</td></tr>
<tr><td>Lleoedd ar gael</td><td>Medi 2024</td><td>281</td><td>16</td></tr>
<tr><td>Lleoedd Gwag</td><td>Medi 2024</td><td>114</td><td>-3</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Rhagolygon Disgyblion</td><td>Medi 2025</td><td>157</td><td>21</td></tr>
<tr><td>Medi 2026</td><td>151</td><td>22</td></tr>
<tr><td>Medi 2027</td><td>146</td><td>21</td></tr>
<tr><td>Medi 2028</td><td>141</td><td>22</td></tr>
<tr><td>Medi 2029</td><td>149</td><td>22</td></tr>
<tr><td>Categori Cyflwr yr Adeilad</td><td colspan="3">Cyflwr C - Gwael<br>Arddangos diffygion mawr a/ neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd.</td></tr>
<tr><td>Addasrwydd yr Adeilad</td><td colspan="3">B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond nid yw’n cefnogi’r cwricwlwm mewn rhai meysydd</td></tr>
<tr><td>Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr</td><td colspan="3">£305,600<br>Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW.</td></tr>
</table>

#### E.9.i.b. Lleoliad yr Ysgol

Tref yw Shotton sy’n cynnwys dwy ward etholiadol Sir y Fflint ac wedi’i lleoli i’r gogledd ddwyrain o’r Wyddgrug. Poblogaeth y ddwy ward, yn ôl cyfrifiad 2021, oedd 6,499.

## E.9.i.c. Gwybodaeth Ddemograffig





Mae dadansoddiad demograffeg (Medi 2024) wedi dangos fod 94.64% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol yr Hybarch Edward Morgan yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig a gynorthwyir yn wirfoddol cyfrwng Saesneg agosaf.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol yr Hybarch Edward Morgan.

## E.9.i.d. Rhagolygon Disgyblion

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 19 | 18 | 12 | 17 | 23 | 19 | 21 | 22 | 21 | 22 | 22 | 3 |
| Derbyn | 27 | 22 | 25 | 15 | 15 | 26 | 19 | 21 | 22 | 21 | 22 | -4 |
| Blwyddyn 1 | 26 | 24 | 22 | 24 | 14 | 18 | 26 | 19 | 21 | 22 | 21 | 3 |
| Blwyddyn 2 | 28 | 26 | 25 | 23 | 24 | 14 | 18 | 26 | 19 | 21 | 22 | 8 |
| Blwyddyn 3 | 38 | 29 | 29 | 25 | 26 | 26 | 14 | 18 | 26 | 19 | 21 | -5 |
| Blwyddyn 4 | 24 | 41 | 30 | 29 | 25 | 27 | 26 | 14 | 18 | 26 | 19 | -8 |
| Blwyddyn 5 | 35 | 24 | 37 | 30 | 30 | 27 | 27 | 26 | 14 | 18 | 26 | -1 |
| Blwyddyn 6 | 40 | 35 | 28 | 38 | 31 | 29 | 27 | 27 | 26 | 14 | 18 | -11 |
| **Cyfanswm** | **218** | **201** | **196** | **184** | **165** | **167** | **157** | **151** | **146** | **141** | **149** | **-18** |
| Uchafswm Disgyblion | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 63 | 80 | 85 | 97 | 116 | 114 | 124 | 130 | 135 | 140 | 132 | 18 |
| % Lleoedd Gwag | 22.42% | 28.47% | 30.25% | 34.52% | 41.28% | 40.57% | 44.13% | 46.26% | 48.04% | 49.82% | 46.98% | 6.41% |
| Niferoedd Derbyn | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




### E.9.i.e. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Chwefror 2025

*“Mae Ysgol Gynradd Gatholig yr Hybarch Edward Morgan yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Mae staff yn cydweithio i greu awyrgylch dysgu pwrpasol i’r holl ddisgyblion, lle maent yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod y bydd oedolion yn eu cefnogi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o’u man cychwyn, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.”*

Gellir dod o hyd i’r adroddiad llawn yma:

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Ven.%2520Edward%2520Morgan%2520R.C.%2520Primary%2520School_0.pdf

Argymhellion

- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth
- Parhau i wella presenoldeb a lleihau lefelau o absenoldeb parhaus

## E.10. Risgiau sydd ynghlwm â’r Cynnig

Mae risgiau allweddol y cynnig yn cynnwys:

| RISG | LLINIARU POSIBL |
|---|---|
| Gallai'r ymgynghoriad ddatgelu dull amgen a allai gynnig ateb hirdymor i ddiogelu'r sector addysg Gatholig yn Sir y Fflint. | Caiff unrhyw ddull amgen ei asesu i bennu ei hyfywedd. Unwaith y bydd hyn wedi'i sefydlu, gwneir penderfyniad naill ai i barhau â'r cynnig neu ddefnyddio'r dull amgen. |
| Fforddiadwyedd y prosiect | Adolygir fforddiadwyedd y prosiect yn barhaus. Mae'r Cyngor yn monitro costau'r prosiect yn barhaus i sicrhau eu bod o fewn y gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn arwain at oedi'r prosiect er mwyn adolygu'r rhesymau a chanfod datrysiadau posib. |
| Ceir 85% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ond ni ellir sicrhau y bydd unrhyw gais am gyllid yn llwyddiannus | Ni ellir gweithredu'r cynnig heb y cyllid hwn. |
| Darperir y 15% o'r gofyniad cyllid sy'n weddill gan y Cyngor, sydd, yn yr un modd â phob awdurdod lleol arall, dan bwysau ariannol sylweddol. | Gwnaed asesiad masnachol o gwmpas arfaethedig y prosiect a'r dyluniad amlinellol, a bernir ei fod yn fforddiadwy o fewn terfynau rhaglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint. |
| Cynnydd mewn costau cludo disgyblion i'r Cyngor | Mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r polisi cludiant ysgol |
| Mae'n bosibl na fyddwn yn bodloni'r dyddiad cwblhau disgwyliedig | Canllaw yn unig yw'r amserlen ddisgwyliedig ac mae'n destun camau amrywiol sy'n golygu y gallai'r cynnig gymryd mwy o amser i'w ddarparu. Fodd bynnag, gyda phrofiad blaenorol helaeth yn darparu prosiectau tebyg, gellir ystyried bod yr amserlen hon yn ymarferol. |
| Colli disgyblion i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig yn sgil ansicrwydd y cynnig i'r dyfodol | Bydd gan y ddarpariaeth Gatholig arfaethedig ddigon o le i ddarparu ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr gyfredol. |
| Gwrthwynebiad posibl i neu ddiffyg ymgysylltiad â'r broses newid gan fudd-ddeiliaid | Cyflwyno gwybodaeth a data clir i alluogi budd-ddeiliaid i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori |

## E.11. Asesiad o Effaith Integredig

Gwnaed asesiad o effaith integredig ar gyfer y cynnig hwn a gellir ei weld ar wefan y Cyngor.

https://siryfflint.gov.uk/YmgynghoriadAddysgGatholig

## E.12. Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg

Ni fydd y cynnig hwn yn ategu at amcanion y Cyngor fel y'u pennir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).  Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 2020, gan gynnwys gwario £20 miliwn ar un ysgol gynradd newydd, rhoi estyniadau ar un arall ac adnewyddu un arall eto. Yn ogystal â hynny, mae cyllid wedi darparu nifer o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i hwyluso mynediad at y Gymraeg i blant ifanc.

Rhagwelir na fyddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y sir gan na fydd nifer y lleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg llawn amser yn cael eu heffeithio. Er bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd i ddarparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## E.13. Effaith ar yr Adeiladau

Nid yw dyfodol safleoedd Saltney a'r Wyddgrug wedi'u pennu eto a bydd hyn yn cael ei reoli yn unol â Pholisi cytunedig y Cyngor ar Dir ac Adeiladau Dros Ben.

## E.14. Trefniadau yn y Cyfamser

Er y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar yr un safle ag Ysgol Gynradd y Santes Fair a Sant Richard Gwyn, mae'r safle'n ddigon mawr i fedru bwrw ymlaen â gwaith adeiladu a chadw'r ddwy ysgol ar agor.  Felly, ni fydd angen trefniadau dros dro i weithredu'r cynnig.